Kirsty Williams AS/MS
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

8 Ionawr 2021

Annwyl Bennaeth

Yn dymuno blwyddyn newydd well i chi yn y gobaith y daethoch o hyd i beth amser i orffwys yn ystod yr egwyl.

Yn anochel, ac fel y nodais yn fy llythyr atoch ar 16 Rhagfyr, rydym wedi gweld dechrau anodd i 2021 gyda Chymru ar lefel rhybudd 4, ac ysgolion yn symud i ddysgu o bell, oherwydd bod mwy o drosglwyddo'r straen COVID-19 newydd.

Bydd y Prif Weinidog yn cadarnhau heddiw y byddwn yn sicrhau bod y broses o wneud penderfyniadau ynglŷn ag ysgolion a cholegau yn cyd-fynd ag amserlen adolygu tair wythnos Llywodraeth Cymru ar 29 Ionawr. Mae hyn yn golygu y bydd dysgwyr yn parhau i ddysgu o bell a bydd plant gweithwyr hanfodol a phlant sy'n agored i niwed yn gallu manteisio ar ddarpariaeth ar y safle, tan hynny.

Bryd hynny, oni bai bod cyfraddau trosglwyddo cymunedol yng Nghymru yn gostwng yn sylweddol erbyn 29 Ionawr, bydd y rhan fwyaf o fyfyrwyr mewn ysgolion a cholegau yn parhau i weithio o bell tan hanner tymor mis Chwefror. Rwyf am bwysleisio – dan arweiniad adroddiad TAG, a gyhoeddir cyn cyhoeddiad y Prif Weinidog – nad yw hwn yn ddewis deuaidd syml rhwng cau ysgolion nawr a'u hailagor ym mis Chwefror. Mae adroddiad TAG yn glir ar gyfraniad addysg i'n hymdrechion i ddelio â hyn, nid am fod ysgolion bellach yn fwy anniogel neu'n peri risg uwch i athrawon a phlant.

Yr ydym yn cymryd y camau hyn oherwydd bod yr amrywiolyn newydd yn arwain at llawer mwy o heintiau ac yn arwain at fwy o bobl yn mynd yn sâl ac yn mynd i'r ysbyty.

Byddwn yn defnyddio'r wythnosau nesaf i weithio gydag awdurdodau lleol, undebau a phenaethiaid i gynllunio ar gyfer y dyfodol. Rydym am weithio gyda'n gilydd yn greadigol i edrych ar yr holl bosibiliadau ar gyfer dychweliad graddol, a diogel, rhai disgyblion yn ystod y cyfnod hwn. Rydym wedi cyflawni hyn ym mhob tymor newydd ers yr Haf a'n cenhadaeth gyfunol yw blaenoriaethu twf, dysg a lles ein plant.

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Bydd cydweithwyr yn gwybod nad yw'r amrywiolyn newydd yn golygu bod ysgolion wedi mynd yn anniogel yn sydyn. Nid ydynt yn peri mwy o risg i athrawon na myfyrwyr. Fodd bynnag, mae cadw ysgolion ar agor yn annog plant ac oedolion i gymysgu – y tu mewn a'r tu allan i gatiau'r ysgol – ar adeg pan fo achosion o coronafeirws yn uchel yn y gymuned ac mae gennym straen heintus iawn yn lledaenu'n gyflym.

Ein gwahoddiad i chi yw parhau i weithio gyda ni fel y gallwn ddefnyddio'r amser hwn i fynd i'r afael ag achosion o allgáu digidol, cynnal asesiadau risg newydd ac adnewyddu canllawiau, yn unol â materion a godwyd gan y gweithlu.

Gwn fod hwn yn gyfnod anodd i bawb ar hyn o bryd, ond byddaf yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf ichi.

Yn gywir

Kirsty Williams AS/MS
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education